

Y Prif Weithredwr
Cynghorau Sir Cymru
Cynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: A-HCR22-13-001

30 Mawrth 2009

Annwyl Brif Weithredwr

DEDDF TAI 1985 - ADRAN 438 AC ATODLEN 16 CYFRADDAU LLOG MORGEISIAU AWDURDODAU LLEOL

1. Amgaeir copi o'r llythyr hwn ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyllid. Hoffwn bwysleisio pwysigrwydd trosglwyddo'r copi hwn iddo cyn gynted â phosibl. Gall methu â gwneud hynny arwain at forgeisiau'r awdurdod yn cael eu codi ar gyfradd llog anghywir.

2. Mae Atodlen 16 Deddf Tai 1985 yn pennu sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol osod cyfraddau llog ar forgeisiau a drefnwyd ers 3 Hydref 1980. Rhaid i'r awdurdodau godi p'un bynnag yw'r uchaf o -

(a) y Gyfradd Genedlaethol Safonol, a bennir gan Weinidogion Cymru, neu

(b) y gyfradd leol gymwys ar gyfartaled, yn seiliedig ar gostau benthyg yr awdurdod ei hun

Y Gyfradd Genedlaethol Safonol Newydd

3. Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Gyfradd Genedlaethol Safonol o log "ar ôl cymryd i ystyriaeth y cyfraddau llog a godir gan y cymdeithasau adeiladu yn y Deyrnas Unedig ac unrhyw symudiad yn y cyfraddau hynny". Mae'r prif gymdeithasau adeiladu wedi cyhoeddi cyfraddau llog sy'n amrywio o 5.79% i 2.50% ar gyfer benthycwyr presennol.

Housing Directorate
Merthyr Tydfil Office
Rhydycar
Merthyr Tydfil CF48 1UZ

Y Gyfarwyddiaeth Dai
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ffôn • Tel: 01685 729256
GTN: 2843 8256
Ffacs • Fax: 01685 729549



**BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE**

Ebost • Email: paul.webb@wales.gsi.gov.uk

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymryd i ystyriaeth ostyngiadau yng nghyfraddau llog morgeisiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y cymdeithasau adeiladu a,

drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 438(1), a pharagraff 2 Atodlen 16, Deddf Tai 1985, mae Gweinidogion Cymru yn datgan drwy hyn fod y Gyfradd Genedlaethol Safonol o log i ostwng i **3.13%** y flwyddyn o **1 Ebrill 2009** ymlaen.

Mae'r datganiad hwn yn disodli'r datganiad a roddwyd yn llythyr y Cynulliad ar 21 Tachwedd 2008.

Trefniadau Cyffredinol

5. Mae'r holl gyfraddau llog y cyfeirir atynt yn y llythyr hwn yn gyfraddau cymwysedig ac nid yn Gyfraddau Canran Blyneddol o Daliadau am Gredyd (APRs) y mae'n rhaid i awdurdodau eu datgan mewn unrhyw ddyfynbris a roir i fenthyciwr newydd, a'u cynnwys mewn unrhyw hysbyseb. Fe fydd yr APR fel rheol yn fwy na'r gyfradd llog gymwysedig.

6. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch Alan Storey ar 01685 729159 neu ysgrifennwch ato yn y cyfeiriad uchod.

Yn gywir

PAUL WEBB
Y Gyfarwyddiaeth Dai